

Briff Ymchwil Cynllunio Gofodol Morol

Awdur: Wendy Dodds

Dyddiad: 12 Rhagfyr 2017



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Awdur: **Wendy Dodds**

Dyddiad: **12 Rhagfyr 2017**

Rhif Papur: **17-036**

Cysylltwch â ni

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

 : 0300 200 6548

 : Wendy.Dodds@Cynulliad.Cymru

 : seneddymchwil.blog

 : [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)

 : Cynulliad.Cymru/Ymchwil

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil
Cynllunio Gofodol Morol



Cynnwys

Cyflwyniad	1
Y Gyfarwyddeb Cynllunio Gofodol Morwrol.....	1
Datganiad Polisi Morol y DU	2
Y broses cynllunio morol.....	2
Cynllunio morol yng Nghymru	3
Datblygu cynlluniau morol ledled y DU	6
Ffynonellau allweddol.....	7

Cyflwyniad

Er gwaethaf system gynllunio defnydd tir sydd wedi bod ar waith ers 70 mlynedd, nid oes dull strategol, gofodol dan arweiniad cynllun i reoli amgylchedd morol y DU wedi bod yn ei le. Yn sgîl [Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009](#) (Deddf y Môr o hyn ymlaen), sefydlwyd system statudol ar gyfer cynllunio ym moroedd y DU.

Mewn ymateb i ofynion cynyddol ar ofod ac adnoddau morol a'r angen i gyflawni ymrwymïadau bioamrywiaeth forol ochr yn ochr â dyheadau am dwf economaidd, mae llawer o wledydd yn fyd-eang wedi dechrau datblygu cyfundrefnau ar gyfer cynllunio gofodol morol. Mae'n parhau i dyfu mewn pwysigrwydd fel patrwm newydd ar gyfer dull rheoli mwy integredig a systematig ar gyfer ardaloedd morol.

Yn y DU, mae cynllunio gofodol morol fel dull rheoli, yn gosod fframwaith i arwain gweithgareddau yn y tymor byr a'r hirdymor, yn ardal y glannau (pwynt uchaf y llanw mawr allan i 12 morfilltir) ac ardal y môr mawr (12 morfilltir allan i 200 morfilltir neu'r llinell ganolrif â gwledydd eraill). Wrth wneud hynny, dylai gyflawni canlyniadau datblygu cynaliadwy ar gyfer yr economi, yr amgylchedd a chymdeithas. Nod canolog y broses cynllunio morol yw sicrhau bod defnyddwyr y môr a rhanddeiliaid yn deall pa weithgareddau sy'n debygol o gael eu caniatáu yn y gwahanol ardaloedd a datrys, cyhyd ag y bo modd, unrhyw wrthdaro'n ymwneud â defnyddio'r môr a hynny ar sail ofodol. Mae'r papur briffio ymchwil hwn yn rhoi cyflwyniad i gynllunio gofodol morol ac yn amlinellu'r sefyllfa bresennol yng ngwledydd y DU.

Y Gyfarwyddeb Cynllunio Gofodol Morwrol

Ym mis Gorffennaf 2014 cafodd y [Gyfarwyddeb Cynllunio Gofodol Morwrol](#) ei mabwysiadu gan sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd (UE). Mae'r Gyfarwyddeb yn gosod fframwaith cyffredin ar gyfer cynllunio gofodol morol ar draws yr UE ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r holl Aelod-wladwriaethau gael cynlluniau morwrol ar waith erbyn 31 Mawrth 2021. Rhaid i Aelod-wladwriaethau adolygu'r cynlluniau hyn o leiaf bob 10 mlynedd.

Mae'r Gyfarwyddeb yn rhoi disgrisiwn i Aelod-wladwriaethau benderfynu ar eu hamcanion eu hunain ar gyfer eu cynlluniau ond yn nodi rhai meini prawf isafswm y dylai'r Aelod-wladwriaethau eu dilyn. Dylent, er enghraifft, gymhwyso'r Dull Ecosystem a ddiffinnir o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Strategaeth Forol (Erthygl 1(3)):

...ensuring that the collective pressure of such activities is kept within levels compatible with the achievement of good environmental status and that the capacity of marine ecosystems to respond to human-induced changes is not compromised, while enabling the sustainable use of marine goods and services by present and future generations.

Mae gofynion eraill yn cynnwys rhoi ystyriaeth gyfartal i effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd; sicrhau cyfranogiad rhanddeiliaid; defnyddio'r data gorau sydd ar gael a sicrhau cydweithrediad trawsffiniol. Rhaid datblygu'r holl gynlluniau morol sy'n cael eu datblygu yn y DU yn unol â gofynion y Gyfarwyddeb. Mae rhagor o wybodaeth am y Gyfarwyddeb hon i'w gweld yng [Nghyhoeddiad y Gwasanaeth Ymchwil \(PDF 265KB\)](#).

Datganiad Polisi Morol y DU

Mae Deddf y Môr yn nodi proses benodol ar gyfer cynllunio morol sy'n ei gwneud yn ofynnol i Ysgrifennydd Gwladol y DU dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) gydweithio â'r gweinyddiaethau datganoledig, cyhyd ag y bo modd, i fabwysiadu Datganiad Polisi Morol DU gyfan ar y cyd.

Cafodd **Datganiad Polisi Morol y DU (MPS) (PDF 959KB)** ei fabwysiadu ym mis Mawrth 2011. Mae'n nodi'r strategaeth hirdymor ar gyfer rheoli datblygu cynaliadwy yn ardal forol y DU. Mae'n gwneud hyn trwy ddarparu egwyddorion ar gyfer gwneud penderfyniadau a gosod allan amcanion polisi ar gyfer gweithgareddau allweddol megis porthladdoedd a llongau, ynni, pysgodfeydd ac agregau morol.

Y bwriad yw hwyluso datblygu cynlluniau morol yn unol â'r MPS ac yn unol â gweledigaeth y DU ar gyfer "*cefnforoedd a moroedd glân, iach, diogel, cynhyrchiol a biolegol amrywiol*". Mae hefyd yn nodi pum **Prif Amcan Morol y DU gyfan (PDF 843KB)**:

- Cyflawni economi morol cynaliadwy;
- Sicrhau cymdeithas gref, iach a theg;
- Byw o fewn cyfyngiadau amgylcheddol;
- Hyrwyddo llywodraethu da; a
- Defnyddio gwyddoniaeth mewn ffordd gyfrifol.

Yn absenoldeb cynllun morol, dylai awdurdodau cyhoeddus wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar yr amgylchedd morol gyfeirio at yr MPS.

Y broses cynllunio morol

Mae pedwar awdurdod cynllunio morol sy'n cwmpasu rhanbarthau cynllunio morol y DU:

- Mae Llywodraeth y DU (Ysgrifennydd Gwladol, Defra) yn gyfrifol am ranbarthau'r glannau a'r môr mawr yn Lloegr (mae hyn wedi'i ddirprwyo gan Defra i'r Sefydliad Rheoli Morol);
- Mae Llywodraeth Cymru (Gweinidogion Cymru) yn gyfrifol am ranbarthau'r glannau a'r môr mawr yng Nghymru;
- Mae gan Lywodraeth yr Alban (Gweinidogion yr Alban) gyfrifoldeb o dan y Ddeddf Forol dros ranbarth môr mawr yr Alban ond yn 2010 cyflwynodd ei **Deddf Morol** ei hun i gwmpasu ei rhanbarth ar y glannau; a
- Mae gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon gyfrifoldeb o dan y Ddeddf Forol dros ranbarth môr mawr Gogledd Iwerddon ond yn 2013 cyflwynodd ei **Deddf Morol** ei hun i gwmpasu ei rhanbarth ar y glannau.

Bydd y cynlluniau morol yn nodi'n fanwl sut y bydd amcanion polisi'r Datganiad Morol yn cael eu cyflawni'n lleol ac yn rhoi canllawiau ar sut y bydd y gweithgareddau a'r adnoddau morol yn yr ardaloedd yn cael eu rheoli. Bydd y cynlluniau'n cynnwys canllawiau gofodol seiliedig ar ardaloedd yn nodi'r manau hynny lle y bydd caniatâd ar gyfer gwahanol weithgareddau'n fwyaf tebygol o gael ei roi. O dan Ddeddf y Môr, bydd angen seilio'r cynlluniau ar dystiolaeth a bydd yn rhaid rhoi cymaint o sicrwydd â phosibl i randdeiliaid gan gydnabod hefyd y bydd angen eu haddasu dros gyfnod wrth i'r amgylchedd newid. Disgwylir i'r broses o ddrafftio'r cynlluniau hefyd ystyried effaith bosibl y gwahanol weithgareddau yn y tymor hir. Wrth ddatblygu cynlluniau morol mae'n rhaid i'r awdurdod cynllunio morol perthnasol gyhoeddi Datganiadau Cyfranogiad Cyhoeddus (SPP). Mae'r dogfennau hyn yn nodi

sut y gall rhanddeiliaid gymryd rhan yn natblygiad y cynllun a sut y gellir gwneud sylwadau. Mae'r Datganiadau hyn yn ofyniad cyfreithiol o dan Ddeddf y Môr a rhaid eu cyhoeddi cyn dechrau paratoi cynlluniau morol.

Unwaith y bydd cynlluniau morol yn cael eu mabwysiadu, mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus sy'n cymryd penderfyniadau gorfodaeth, cydsynio a thrwyddedu a fydd yn effeithio ar yr amgylchedd morol wneud hynny yn unol â'r cynllun morol perthnasol. Mae'r Ddeddf Morol yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod cynllunio morol i adolygu nifer o faterion dan sylw, megis, effeithiolrwydd polisiâu'r cynllun wrth sicrhau amcanion y cynllun. At hynny, rhaid i'r awdurdod cynllunio morol adrodd yn rheolaidd ar fonitro a gweithredu'r cynllun, gydag adroddiad i'w gyhoeddi rhwng 3 a 6 mlynedd ar ôl i'r cynllun ddod i ben.

Mae'r berthynas rhwng cynlluniau morol a chynllunio defnydd tir o dan y Ddeddf Morol, yn gweld gorgyffwrdd a rennir yn y parth rhynglanwol. Mae cynllunio morol yn gymwys hyd at y marc dŵr uchel cymedrig, mae hyn yn cynnwys yr arfordir, aberoedd a dyfroedd llanw (hyd at ddŵr uchel cymedrig y llanw mawr). Mae cynllunio defnydd tir yn ymestyn i lawr i'r marc dŵr isel cymedrig. Mae'r ddwy system yn rhagdybio o blaid datblygu cynaliadwy. Yng ngoleuni'r gydberthynas rhwng y ddwy gyfundrefn, mae angen i Awdurdodau Lleol arfordirol integreiddio gweithgaredd cynllunio ar y tir gyda hynny yn yr ardal forol ac i'r gwrthwyneb. Mae'r MMO wedi cynhyrchu [canllaw i Awdurdodau Lleol](#) ar gynllunio morol.

Cynllunio morol yng Nghymru

Mae ardal forol Cymru yn cynnwys tua 15,000 km² o fôr a 2,120 km o arfordir. Mae Ardal Cynllunio Morol Cymru yn cynnwys y rhanbarth ar y glannau a'r môr mawr. Gellir gweld y rhain yn Ffigur 1. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu [animeiddiad](#) sy'n esbonio cynllunio morol yng Nghymru.

Yn ogystal â chydymffurfio â MPS y DU, er enghraifft, cefnogi datblygiad cynaliadwy moroedd Cymru, bydd yn rhaid i gynllun morol i Gymru fod yn gyson ag amcanion a rhwymedigaethau cyfreithiol Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â'r ffyrdd o weithio a'r nodau llesiant o dan y *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* a Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR) dan *Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016*. At hynny, dylai'r cynllun fod yn seiliedig ar ecosystem yn unol â Chyfarwyddeb Fframwaith Strategaeth Morol yr UE a Chyfarwyddeb Cynllunio Gofodol Morwrol yr UE.

Rhennir y cyfrifoldeb am reoleiddio gweithgareddau yn nyfroedd Cymru rhwng Llywodraethau Cymru a'r DU yn dibynnu a yw'r mater wedi'i ddatganoli neu heb ei ddatganoli. O'r herwydd cyn y gellir mabwysiadu cynllun morol, bydd angen i Weinidogion Cymru geisio caniatâd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig am unrhyw agweddau ar y cynllun a allai effeithio ar feysydd cyfrifoldeb nad ydynt wedi'u datganoli. Unwaith y bydd y cynllun wedi'i fabwysiadu, bydd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ddiweddarau'r Cynulliad ar gynnydd o ran ei weithredu o leiaf unwaith bob chwe blynedd.

Bydd sefydlu fframwaith cynllunio morol i Gymru yn galluogi newid o ran trwyddedu morol, er mwyn iddo gael ei weithredu ar sail cynllun. Mae trwyddedu morol ar gyfer rhanbarth y môr yng Nghymru yn fater sydd wedi'i ddatganoli gyda chyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo gan Weinidogion Cymru i [Gyfoeth Naturiol Cymru](#). Mae'r pwerau hyn yn cael eu hymestyn o dan *Ddeddf Cymru 2017* i gynnwys y rhanbarth môr mawr.

Ar 16 Chwefror 2011, lansiodd Llywodraeth Cymru [ymgyngoriad](#) ynghylch sut yr oedd yn bwriadu mynd ati i baratoi cynlluniau morol, gan gynnwys cynllunio cenedlaethol ac is-genedlaethol. Nododd hyn fod Llywodraeth Cymru yn gobeithio mabwysiadu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru erbyn

diwedd 2012-13. Cyhoeddwyd drafft cychwynnol ym mis **Tachwedd 2015 (PDF 8.2MB)**. Ym mis Ionawr 2017, nodwyd mewn **SPP wedi'i ddiweddarau** fwriad y Llywodraeth i gael cynllun drafft yn barod i ymgynghori arno o fewn y flwyddyn.


Ar 7 Rhagfyr 2017 lansiodd Llywodraeth Cymru **ymgyngoriad 16 wythnos** ar y WNMP o dan Atodlen 6 o'r Ddeddf Morol. Mae'r WNMP yn nodi polisi Llywodraeth Cymru am gyfnod o 20 mlynedd ar gyfer datblygiad cynaliadwy ardal cynllunio morol Cymru ar gyfer y rhanbarthau ar y glannau a'r môr mawr.

Mae'r ddogfen ymgynghori, yn ogystal â chyflwyno gweledigaeth ar gyfer moroedd Cymru, yn nodi 25 o bolisiau trawsbynciol cyffredinol, wedi'u trefnu yn ôl 5 Prif Amcan Morol y DU, ynghyd ag 11 o bolisiau sector unigol a'u hamcanion sector cysylltiedig. Gellir gweld y sectorau yn Ffigur 2 isod.

Gall polisiau sector fod naill ai yn rhai 'cefnogi' a/neu'n rhai 'diogelu'. Mae'r ymgynghoriad yn nodi bod polisi cefnogi "yn annog gweithgarwch parhaus yn y sector". Mae polisi diogelu "er mwyn hyrwyddo cydnawsedd ac atal effeithiau andwyol anorfod ar ddefnyddwyr eraill a defnyddiau'r amgylchedd morol". Mae mapiau polisi yn cyd-fynd â nifer o'r sectorau, gyda rhai ohonynt yn cael eu cefnogi gan 'Ardaloedd Adnoddau Strategol' (SRAs). Mae'r rhain yn cael eu hystyried fel "ardaloedd â chyfle da ar gyfer defnydd yn y dyfodol dros gyfnod y cynllun a thu hwnt".

Cyn i'r cynllun gael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori, roedd Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys cynrychiolaeth megis cyrff anllywodraethol amgylcheddol a diwydiant, wedi cyfrannu ei safbwyntiau.

Yn cefnogi'r broses cynllunio morol mae'r **Adroddiad Tystiolaeth Morol Cymru** (2015) a sylfaen dystiolaeth ofodol Llywodraeth Cymru, y **porth cynllunio morol Cymru**. Mae'r porth yn dal nifer helaeth o haenau data GIS sy'n darparu gwybodaeth megis lleoliad ceblau a phiblinellau, ardaloedd gwarchoddedig a data lloeren pysgota. Gellir gweld y mapiau hyn yn gyhoeddus a gellir ychwanegu atynt gan y rhai sy'n dal setiau data, gan ganiatáu i Lywodraeth Cymru ddatblygu ac addasu i'r sylfaen dystiolaeth wrth iddi dyfu.



Ffigur 1: Ardal Cynllunio Morol Cymru

[Ffynhonnell: Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru]



Ffigur 2: Sectorau a gwmpesir gan Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru

[Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Trosolwg o Gynllun Morol ar gyfer Moroedd Cymru]

Datblygu cynlluniau morol ledled y DU

Lloegr

Yn Lloegr, mae Llywodraeth y DU (Defra) wedi dirprwyo ei swyddogaethau cynllunio morol i'r Sefydliad Rheoli Morol (MMO). Mae'r MMO yn gorff cyhoeddus anadrannol. Mae'r MMO yn gyfrifol am ddatblygu Cynlluniau Morol yn rhanbarth y glannau a'r môr mawr. Mae un ar ddeg o ranbarthau cynllunio morol wedi'u sefydlu o gwmpas arfordir Lloegr, a bydd gan bob un ohonynt gynllun morol sy'n ymdrin â gweithgareddau dros gyfnod o 20 mlynedd. Mae cynlluniau'n cael eu datblygu'n ddilynol ar gyfer y gwahanol ardaloedd, gyda'r nod o gwmpasu rhanbarthau Lloegr ar y glannau a'r môr mawr yn llwyr erbyn 2021. Unwaith y mabwysiadwyd y cynlluniau byddant yn cael eu hadolygu bob 3 blynedd.

Ardaloedd y glannau a'r môr mawr yn y dwyrain o'r Cynllun morol oedd y ddau ranbarth cyntaf a ddewiswyd yn Lloegr. Cafodd Cynlluniau Morol y Dwyrain eu cyhoeddi ar 2 Ebrill 2014

<https://www.gov.uk/government/collections/east-marine-plans> a'u hadolygu yn 2017.

Ardaloedd y glannau a'r môr mawr yn y de oedd y drydedd a'r bedwaredd ardal yn Lloegr i gael eu dewis, gyda SPP yn cael ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2013. Cyhoeddwyd ymgynghoriad cyhoeddus cyfunol ym mis Tachwedd 2016; gyda'r bwriad o gyhoeddi'r cynlluniau terfynol yn 2017.

Yn 2016, cyhoeddodd y MMO newid o'u rhaglen dreigl o ddatblygu'r cynllun morol, gan nodi y bydd yn datblygu cynlluniau ar gyfer y pedair ardal sy'n weddill ar yr un pryd. Mae ymgysylltiad ar gyfer yr ardaloedd hyn, y Gogledd Ddwyrain, De Ddwyrain, De Orllewin a Gogledd Orllewin, wedi cychwyn gyda'r bwriad o gael cynlluniau morol ar waith erbyn 2021.

Bydd angen cael cydweithrediad awdurdodaeth trawsffiniol rhwng yr MMO, Llywodraeth Cymru ac eraill ar gyfer datblygu cynlluniau mewn ardaloedd fel Aber Afon Dyfrdwy a Môr Hafren. Mae'r ardaloedd trawsffiniol hyn wedi'u cwmpasu gan ardaloedd cynllun morol Gogledd Orllewin a De Orllewin yr MMO, yn y drefn honno.

Yr Alban

Yn yr Alban, creodd Deddf Môr yr Alban 2010 fframwaith cynllunio gofodol newydd ar gyfer rhanbarth morol y glannau, a Llywodraeth yr Alban sy'n gyfrifol am gynllunio yn nyfroedd môr mawr o dan Ddeddf Môr y DU. Yn dilyn cyfnod o gynllunio ac ymgynghori cyhoeddwyd Cynllun Morol Cenedlaethol yr Alban ym mis Mawrth 2015. Mae'r cynllun yn nodi polisiau Llywodraeth yr Alban ar gyfer ardaloedd y glannau a'r môr mawr.

Cyn deddfwriaeth yr Alban, cynhaliwyd prosiectau peilot lleol i roi agweddau gwahanol ar reoli a chynllunio morol ar brawf fel rhan o Fenter Amgylchedd Morol Cynaliadwy yr Alban. Hefyd, rhoddodd Deddf Môr yr Alban 2010 bŵer i Lywodraeth yr Alban greu rhanbarthau Morol yr Alban. Bydd y rhanbarthau hyn yn gyfrifol am gyflwyno polisiau'r cynllun cenedlaethol ar lefel leol. Bydd y cynlluniau rhanbarthol yn cwmpasu ardal y glannau yn unig. Mae 11 o ranbarthau morol yr Alban wedi eu sefydlu. Bydd Partneriaeth Cynllunio Morol yn cael ei sefydlu ar gyfer pob rhanbarth i ddatblygu cynlluniau morol rhanbarthol. Bydd y bartneriaeth yn cynnwys 'Dirprwy' (gall hyn fod yn unigolyn neu grŵp) a benodir gan Weinidogion yr Alban, yn ogystal ag un neu fwy o awdurdodau cyhoeddus a/neu randdeiliaid. Bydd y cynlluniau rhanbarthol cyntaf i'w datblygu yn cwmpasu'r Clyde ac Ynysoedd Shetland. Cafodd cyfarwyddiadau Gweinidogol a Dirprwyon ar gyfer yr ardaloedd hyn eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2017.

Gogledd Iwerddon

Mabwysiadodd Gogledd Iwerddon [Ddeddf Morol \(Gogledd Iwerddon\) 2013](#) ym mis Medi 2013. Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau a fyddai'n caniatáu i Weithrediaeth Gogledd Iwerddon fabwysiadu fframwaith cynllunio gofodol morol ar gyfer dyfroedd y glannau. Mae gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon, fel gweithrediaeth yr Alban, gyfrifoldeb o dan Ddeddf Môr y DU dros gynllunio yn nyfroedd y môr mawr.

Mae [Cynllun Morol Gogledd Iwerddon](#) (sy'n cwmpasu rhanbarth y glannau a'r môr mawr) yn cael ei baratoi ar hyn o bryd gan yr Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA). Ym mis Chwefror 2012, dywedodd Adran yr Amgylchedd wrth yr awdurdodau perthnasol am ei bwriad i ddechrau gweithio ar Gynllun Morol Gogledd Iwerddon. Hyd yn hyn bu tri adolygiad o'r [SPP](#). Mae'r newidiadau o fewn llywodraeth ganolog a lleol wedi gweld yr amserlen yn mynd yn hwy ar gyfer cyhoeddi ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Morol drafft. Disgwylir y bydd Sgrinio Gwerthusiad Cynaliadwyedd ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) y cynllun yn cael ei gwblhau'n fuan.

Iwerddon

Yn 2012, cyhoeddwyd [Harnessing Our Ocean Wealth – Integrated Marine Plan for Ireland \(PDF 2.05 MB\)](#). Mae'n cynnwys y weledigaeth a ganlyn:

Our ocean wealth will be a key element of our economic recovery and sustainable growth, generating benefits for all our citizens, supported by coherent policy, planning and regulation, and managed in an integrated manner.

Heblaw'r tri phrif nod (economi forwrol ffyniannus; ecosystemau iach, ac ymwneud â'r môr), mae'r cynllun hefyd yn cynnwys wyth galluoogydd a 39 cam gweithredu cysylltiedig. Mae'r cynllun yn cynnwys dau darged allweddol:

- Targed 2020: Cynyddu trosiant economi ein cefnfor i fwy na €6.4 biliwn; a
- Targed 2030: Dyblu gwerth cyfoeth ein cefnfor i 2.4 y cant o'r GDP

Sefydlwyd model cyflawni a gweithredu traws-lywodraethol i brif ffrydio'r cynllun o fewn y llywodraeth. Yn sgil hyn, y Grŵp Cydgysylltu Morol (MCG) sy'n gyfrifol am y cynllun. Mae'r Grŵp yn cynnwys uwch-gynrychiolwyr o adrannau sydd â chyfrifoldebau morol, a'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Bwyd a Môr). Mae'r model yn cynnwys adolygiadau blynyddol, tasgluoedd penodol, ymdrechion i wella cyfathrebu ac ymgysylltu ar draws y llywodraeth, gydag adrannau unigol yn gweithredu rhaglenni polisi a strategaeth perthnasol.

Ffynonellau allweddol

[Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009](#)

[Deddf Morol \(Yr Alban\) 2010](#)

[Deddf Morol \(Gogledd Iwerddon\) 2013](#)

Llywodraeth EM, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru, [UK Marine Policy Statement](#) 2011

Prif Amcanion Morol y DU, fel y'u cynhwysir yn [Ein moroedd - adnodd a rennir 2009 \(PDF 843KB\)](#)

Llywodraeth y DU, [Marine planning in England](#)

Llywodraeth Cymru, [Cynllunio Morol yng Nghymru](#)

Marine Management Organisation, [Marine Planning: A Guide for Local Authority Planners \(PDF 8MB\)](#), Ebrill 2016

Llywodraeth yr Alban, [National Marine Plan](#)

Llywodraeth yr Alban, [Regional Marine Planning](#)

Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, [Marine Plan Northern Ireland](#)

UNESCO [Marine Spatial Planning, A Step-by-Step Approach toward Ecosystem-based Management](#)